Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cynllun Strategol

2018 - 2021

Cynnwys

1. Crynodeb
2. Swyddogaethau
3. Gweledigaeth a gwerthoedd
4. Amcanion strategol
    - Amcan 1 – dylanwadu ar bolisi
    - Amcan 2 – ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
    - Amcan 3 – sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau
    - Amcan 4 – hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg
5. Gweithredu a galluogi
6. Adrodd ac atebolrwydd

Comisiynydd y Gymraeg

Siamrau'r Farchnad

5 – 7 Heol Eglwys Fair

Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygymraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

www.comisiynyddygymraeg.cymru

Cynllun Strategol 2018 - 2021

1. Crynodeb

Gweledigaeth

Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Amcanion strategol

1. Dylanwadu ar bolisi
2. Ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
3. Sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau
4. Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg

2. Swyddogaethau

2.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn nodi beth yw swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny rhaid gweithio tuag at gynyddu darpariaeth a defnydd o wasanaethau Cymraeg a chynyddu cyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r iaith. Rhaid i ni hefyd roi sylw i'r canlynol:

- statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy safonau'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny
- yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- a'r egwyddor y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.2 Mae'r Mesur yn rhoi nifer o swyddogaethau a phwerau penodol i'r Comisiynydd. Rhaid i ni, er enghraifft, gyhoeddi adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg a gallwn gynnal ymholiadau i unrhyw fater yn ymwneud â'n swyddogaethau. Gallwn gychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ac mae gan y Comisiynydd bwerau lled farnwrol i ddyfarnu ar achosion. Mae gennym ni swyddogaethau ehangach hefyd, gan gynnwys:

- annog sefydliadau i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- cadw'r gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
- llunio a chyhoeddi adroddiadau
- gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru
- rhoi cyngor i unrhyw berson.

2.3 Mae strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, yn gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ogystal â chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Mae cyfeiriad at waith a rôl y Comisiynydd yn y strategaeth honno, yn benodol o ran:

- cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector
- cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg

2.4 Gwneir hyn yn bennaf drwy fframwaith safonau'r Gymraeg sy'n golygu bod sefydliadau penodol yn gorfod gwella'r ffordd y maent yn cynllunio'r gweithlu ac yn cynyddu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn Gymraeg.

2.5 Mae'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn egluro sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r swyddogaethau a'r disgwyliadau hyn.

3. Gweledigaeth a gwerthoedd

Gweledigaeth y Comisiynydd yw:

Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

3.1 Mae'n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan arferol o'u bywydau bob dydd. Dylent allu gwneud hynny mewn pob math o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol a dylai gwasanaethau Cymraeg fod yn hygyrch ac o ansawdd uchel fel ei bod hi mor rhwydd â phosibl i bobl eu defnyddio.

3.2 Ein gwaith ni yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r gyfundrefn safonau yn rhan hanfodol o hynny. Bydd rheoleiddio gweithredu'r safonau hefyd yn golygu bod sefydliadau'n ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau mewnol ac yn hybu defnydd ehangach o'r iaith yn y gymuned. Byddwn yn dylanwadu ar bolisi er mwyn sicrhau bod polisïau, strategaethau a deddfwriaeth yn cefnogi ymdrechion i alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn annog a chefnogi ymdrechion busnesau, elusennau a mudiadau eraill, nad ydynt o dan unrhyw ofynion penodol i ddefnyddio'r iaith, i fynd ati i ddarparu mwy o adnoddau a gwasanaethau yn yr iaith. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor arbenigol ar nifer o wahanol faterion er mwyn cefnogi ymdrechion i ddefnyddio'r Gymraeg.

3.3 Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, byddwn yn canolbwyntio ar y pedwar amcan strategol canlynol ar gyfer 2018-21:

1. Dylanwadu ar bolisi

2. Ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg

3. Sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau

4. Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg

Gwerthoedd

3.4 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff annibynnol sydd ag amrediad eang o swyddogaethau. Mae gennym ni bwerau rheoleiddio a gorfodi lle mae gofyn i ni ymddwyn yn ddiduedd a gwrthrychol ac mae gennym ni hefyd swyddogaethau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle mae angen i ni roi cyngor a chymorth arbenigol. Mae'n allweddol, felly, ein bod yn gweithredu ar sail gwerthoedd craidd sy'n gyson ar draws y sefydliad.

3.5 Mae gennym God Ymddygiad sydd wedi ei seilio ar saith egwyddor craidd safonau mewn bywyd cyhoeddus. Byddwn yn dilyn yr egwyddorion hynny ym mhopeth a wnawn:

Anhunanoldeb Byddwn yn gwneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni fyddwn yn gwneud hynny er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall i ni ein hunain, ein teulu, na'n ffrindiau.

Uniondeb Ni fyddwn yn gosod ein hunain o dan unrhyw ymrwymiad ariannol nac ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnom wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, byddwn yn gwneud dewisiadau ar sail haeddiant.

Atebolrwydd Rydym yn atebol am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid i ni dderbyn camau craffu sy'n briodol.

Bod yn agored Byddwn mor agored â phosibl am yr holl benderfyniadau a chamau yr ydym yn eu cymryd. Byddwn yn rhoi rhesymau am ein penderfyniadau a pheidio â chyfyngu gwybodaeth ond lle bydd diddordeb cyhoeddus ehangach yn gofyn am hynny.

Gonestrwydd Mae dyletswydd arnom i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'n dyletswyddau cyhoeddus a byddwn yn cymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

Arweinyddiaeth Byddwn yn hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweiniad ac esiampl.

3.6 Wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio byddwn yn rhoi sylw i fframwaith Cod Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr gan sicrhau bod ein gwaith:

- yn gymesur
- yn atebol
- yn gyson
- yn dryloyw
- wedi ei dargedu

Mae rhagor o wybodaeth am ein hegwyddorion rheoleiddio yn ein Polisi Gorfodi ar ein gwefan.

4. Amcanion strategol

Amcan strategol 1: Dylanwadu ar bolisi

4.1 Gall datblygiadau polisi a deddfwriaeth gael effaith sylweddol ar ymdrechion i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg ac ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae meysydd fel addysg, datblygu economaidd, tai a chynllunio, a iechyd a gofal yn greiddiol i les y Gymraeg a'i siaradwyr. Heb ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn y meysydd hyn, mae risg y gallai datblygiadau gael effaith andwyol ar yr iaith neu bod cyfleoedd yn cael eu colli i effeithio'n gadarnhaol ar ei dyfodol. O'r herwydd, mae dylanwadu ar bolisi yn rhan hanfodol o'n gwaith.

4.2 Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar bolisi a deddfu yng Nghymru, ac mae Llywodraeth y DU yn arwain ar bolisi mewn meysydd sydd heb eu datganoli. Mae angen i'r Gymraeg gael ei hystyried yn gyson a byddwn yn blaenoriaethu'n hymdrechion dylanwadu ar faterion cenedlaethol sy'n mynd i gael yr effaith fwyaf ar y Gymraeg a'i siaradwyr.

4.3 Er mwyn dylanwadu'n effeithiol, byddwn yn cymryd camau rhagweithiol yn y meysydd polisi hynny sy'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr polisi; datblygu nodiadau briffio; a rhannu barn a thystiolaeth gyda gwneuthurwyr polisi. Os na fyddwn yn credu bod datblygiadau polisi'n cefnogi'r Gymraeg fel y dylent, neu'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg, byddwn yn dweud hynny ac yn cymryd camau priodol i geisio unioni'r sefyllfa.

4.4 Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf yn 2016 a bydd angen cyhoeddi'r nesaf yn ystod 2021. Byddwn yn ystyried ffynonellau data a gwybodaeth fan fapio bylchau tystiolaeth fel bod yr adroddiad nesaf yn rhoi darlun mor gyflawn â phosibl am sefyllfa'r Gymraeg.

4.5 Mae dylanwadu ar bolisi'n ddibynnol i raddau helaeth ar dystiolaeth a data i gefnogi a chryfhau safbwyntiau. Byddwn yn parhau i gynyddu ein dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg drwy wneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud. Byddwn hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt ar waith ymchwil a datblygu'r gwaith a'r cysylltiadau yr ydym wedi eu meithrin yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Blaenoriaethau

1. Sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth.
2. Gweithredu'n rhagweithiol mewn meysydd polisi sy'n hanfodol i les y Gymraeg.
3. Cynllunio a pharatoi adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg.
4. Cynyddu'r ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg drwy gynnal ymchwil a chydweithio ag eraill yng Nghymru a thu hwnt.

Amcan strategol 2 – ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg

4.6 Mae Mesur y Gymraeg yn creu trefn o gyflwyno dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau ar ffurf safonau'r Gymraeg. Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu'r safonau i sefydliadau a sectorau penodol drwy reoliadau. Is-ddeddfwriaeth yw'r rheoliadau hyn sy'n cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Wedi i hynny ddigwydd, mae'n awdurdodi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau penodol ar sefydliadau drwy ymgynghori ac yna gosod hysbysiadau cydymffurfio. Mae gosod y dyletswyddau statudol hyn ar sefydliadau'n creu hawliau i bobl allu defnyddio'r Gymraeg gyda'r cyrff hynny ac yn rhoi disgwyliad ar sefydliadau i hyrwyddo'r Gymraeg.

4.7 Erbyn mis Ebrill 2018, roedd 103 o sefydliadau yn gweithredu safonau, gan gynnwys awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, heddluoedd, prifysgolion a cholegau addysg bellach. Roedd gwaith hefyd yn cychwyn ar osod safonau ar sefydliadau iechyd a gofal. Bwriad y Comisiynydd ydi parhau i ymestyn y gyfundrefn safonau fel bod hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn bodoli mewn rhagor o sectorau. Mae hynny'n ddibynnol ar raglen ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

4.8 Mae rhai sefydliadau'n parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Nid oes modd gosod safonau ar adrannau Gweinidogion y Goron yn San Steffan ar hyn o bryd, er enghraifft, er bod nifer ohonynt yn darparu gwasanaethau yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r cyrff hynny i sicrhau bod ganddynt gynlluniau iaith cyfredol ac ymrwymiadau i wella a chynyddu eu darpariaeth yn y Gymraeg.

4.9 Er mwyn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn llwyddiannus, mae'n bwysig bod y sefydliadau sy'n gweithredu'r safonau yn deall y gofynion sydd arnynt. Byddwn yn parhau i roi arweiniad i sefydliadau ac ymateb i ymholiadau fel sy'n briodol. Byddwn hefyd yn parhau i lunio a chyhoeddi codau ymarfer, sef cyngor ymarferol i sefydliadau ar sut i weithredu safonau.

4.10 Elfen arall o'r gwaith yw sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym eisoes wedi cynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth, a bydd y gwaith yma'n parhau wrth i ragor o sectorau weithredu'r safonau.

Blaenoriaethau

1. Gosod dyletswyddau statudol ar sefydliadau.

2. Addysgu sefydliadau fel eu bod yn deall y gofynion sydd arnynt.

3. Cyfathrebu'n effeithiol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Amcan strategol 3 – sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau

4.11 Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio drwy annog sefydliadau i gydymffurfio yn ogystal â thrwy orfodi. Mae'n waith cynhwysfawr a manwl am sawl rheswm:

- mae angen rheoleiddio dwy gyfundrefn statudol, gan fod rhai sefydliadau'n gweithredu safonau'r Gymraeg ac eraill yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg
- mae sefydliadau cyhoeddus yn gymhleth ac yn amrywio o ran eu maint, natur eu gwasanaethau, a chyfansoddiad ieithyddol y rhai maent yn eu gwasanaethu
- mae safonau'r Gymraeg yn creu dyletswyddau hyrwyddol eang: i gyflenwi gwasanaethau, ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, gweithredu'n fewnol a, mewn rhai amgylchiadau, i hybu'r Gymraeg yn strategol
- mae'r Comisiynydd yn gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth wrth arfer pwerau rheoleiddio, ond yn gwneud hynny mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod sefydliadau'n cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru.

4.12 Cyd-destun pellach yw'r angen i newid arferion wrth reoleiddio. Wrth i argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg wella rhaid annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn ogystal ag annog sefydliadau i hyrwyddo'r Gymraeg.

4.13 Rhan bwysig o'r gwaith fydd casglu tystiolaeth dibynadwy ac annibynnol ynghylch sut y mae sefydliadau'n perfformio, a rhannu canfyddiadau'n gyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau i dargedu gwelliannau, a llunwyr polisi i asesu a yw'r gyfundrefn yn gweithio; dylai hefyd roi sicrwydd i siaradwyr Cymraeg fod sefydliadau'n gweithredu fel y dylent, gan arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.

4.14 Bydd defnyddwyr y Gymraeg yn ganolog i'r gwaith o sefydlu darlun cywir o'u profiadau a gwrando ar eu barn. Wrth fonitro bydd blaenoriaethu a thargedu adnoddau er mwyn cael y traweffaith gorau posib yn bwysig.

4.15 Cyfrifoldeb sefydliadau yw cydymffurfio â dyletswyddau iaith. Mae'n bwysig bod sefydliadau'n hunanreoleiddio drwy drefniadau goruchwylio cadarn, ac er mwyn rhoi sicrwydd eu bod yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn unol â gofynion y safonau. Mae hefyd yn bwysig bod sefydliadau'n dysgu oddi wrth ei gilydd gan fabwysiadu arferion llwyddiannus lle'n bosibl. Dros amser, os bydd sefydliadau'n ymroi i wneud hyn, bydd yr angen i'r Comisiynydd fonitro ac ymyrryd yn lleihau.

4.16 Mae gan unigolion hawl i gwyno wrth y Comisiynydd am fethiannau gan sefydliadau i gydymffurfio â safonau. Mae cwyno'n gallu bod yn brofiad annymunol a beichus i aelodau'r cyhoedd, ac felly anelir at wneud y broses yn un mor ddidrafferth â phosibl, a sicrhau bod pobl yn gwybod sut i wneud cwyn. Wrth ystyried ymchwilio i gwynion, bydd y Comisiynydd yn trin pob cwyn yn gyfartal ac yn ystyried amcanion Mesur y Gymraeg gan weithredu'n wrthrychol a theg wrth ymwneud â sefydliadau ac unigolion.

4.17 Mae dyletswydd ar y Comisiynydd i arfer pwerau ymchwilio a gorfodi. Y flaenoriaeth strategol wrth wneud hynny fydd adfer cydymffurfiaeth, atal methiannau rhag digwydd neu rhag cael eu hail adrodd, a chymell diwylliant o arloesi er mwyn gyrru newidiadau parhaol yn y modd y mae sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg, nid cosbi sefydliadau. Gosodir y camau gorfodi mwyaf addas ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn, a bydd swyddogion yn gwirio bod sefydliadau'n cyflawni'r camau gorfodi hynny. Bydd y Comisiynydd yn ystyried agor ymchwiliadau ei hun os yw'n ystyried bod hynny'n gam strategol bwysig.

Blaenoriaethau

1. Casglu tystiolaeth ynghylch ansawdd profiadau a lefelau cydymffurfiaeth gan roi barn annibynnol ar y canfyddiadau a gweithredu arnynt.

2. Hybu ymdrechion sefydliadau i hunanreoleiddio'n effeithiol a hwyluso'r gwaith o rannu llwyddiant ac arloesi.

3. Gweithredu trefn hygyrch ac effeithiol ar gyfer derbyn cwynion.

4. Sicrhau bod y gwaith o ymchwilio i amheuon o fethiant a gorfodi safonau'r Gymraeg yn cael traweffaith ar hawliau dinasyddion i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau.

Amcan strategol 4 – hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg

4.18 Nid oes dyletswyddau statudol ar bob sector i ddefnyddio'r Gymraeg. Wrth weithio â'r sefydliadau hynny byddwn yn rhoi cyngor a chefnogaeth fel ei bod mor hawdd â phosibl iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a'u bod yn deall y manteision o wneud hynny.

4.19 Byddwn yn meithrin perthynas â phartneriaid strategol er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau. Byddwn yn gweithio â chyrff cynrychioladol er mwyn gallu cael negeseuon at amrediad o gwmnïau a sefydliadau. Byddwn hefyd yn sefydlu ein fforymau ein hunain mewn rhai sectorau er mwyn rhannu gwybodaeth ac arfer da.

4.20 Byddwn yn rhannu gwybodaeth a pharatoi canllawiau i fusnesau a chyrff trydydd sector. Byddwn hefyd yn casglu a lledaenu arferion da sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac yn addysgu a thynnu sylw sefydliadau at dystiolaeth ac ymchwil sy'n dangos buddion defnyddio'r iaith a cheisio sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'r canllawiau a'r arfer da sydd ar gael.

4.21 Er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn cynnig cefnogaeth ymarferol i fusnesau ac elusennau. Byddwn yn parhau i gynnig sesiynau hyfforddi ar y cyd â phartneriaid eraill ac yn cynnig cefnogaeth drwy adnoddau cynllun hybu'r Comisiynydd. Elfen arall o'r gefnogaeth fydd cynnig gwasanaeth prawf ddarllen a chefnogaeth ddwys i sefydliadau sydd wedi ymrwymo i gynllun hybu.

4.22 Er mwyn i unigolion a sefydliadau o bob math fedru cynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg rhaid sicrhau bod yr isadeiledd, sef yr adnoddau addas i hwyluso hynny, ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth; adnoddau ieithyddol fel geirfa ac enwau lleoedd safonol a chorff o gyfieithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf.

4.23 Byddwn yn rhoi cyngor arbenigol ac yn dylanwadu ar bolisi yn y meysydd hyn er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern a safonol. Mae gennym gyfrifoldeb i safoni enwau lleoedd Cymru a byddwn yn cydweithio ag

awdurdodau lleol ac eraill wrth wneud hynny. Byddwn yn cadw cofnod o'n hargymhellion ac yn cyhoeddi'r enwau mewn rhestr o enwau lleoedd safonol ar-lein.

Blaenoriaethau

1. Meithrin perthynas â phartneriaid strategol er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau.
2. Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg trwy gynnal ymchwil a pharatoi canllawiau i fusnesau ac elusennau.
3. Cynnig cefnogaeth ymarferol i fusnesau ac elusennau ar ddefnyddio'r Gymraeg.
4. Darparu cyngor i sefydliadau ac eraill am faterion yn ymwneud ag isadeiledd y Gymraeg gan gynnwys cyfieithu, technoleg, geiriadura a therminoleg.
5. Cynnig cyngor arbenigol ac annibynnol am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru.

5. Gweithredu a galluogi

5.1 Er mwyn cefnogi ein holl weithgareddau a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion strategol, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar weithredu'n effeithiol ac effeithlon. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyfathrebu; rheoli cyllid ac adnoddau; datblygu'r gweithlu a llywodraethu.

5.2 Byddwn yn cyfathrebu â'r cyhoedd a chynulleidfaoedd eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith. Er mwyn i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, mae'n bwysig eu bod yn deall eu hawliau a'r cyfleoedd sy'n bodoli i ddefnyddio'r iaith. Caiff amrywiaeth o ddulliau eu defnyddio i gyfathrebu â'n rhan-ddeiliaid gan gynnwys ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysebion a digwyddiadau. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i arloesi ac yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill. Mae'r cynllun Iaith Gwaith yr ydym yn gyfrifol amdano, sy'n galluogi pobl i adnabod lle gallent dderbyn gwasanaeth Cymraeg, yn rhan ganolog o'n hymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.3 Caiff swyddfa'r Comisiynydd ei hariannu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Gyda'r wasgfa ariannol, mae defnydd effeithiol o gyllid ac adnoddau yn allweddol bwysig ac rydym wedi ymrwymo i egwyddorion rheoli arian cyhoeddus Cymru. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gynllunio, rheoli a monitro gwariant ac adnoddau'r sefydliad. Rydym yn ymwybodol iawn hefyd o'r angen i ddarparu'r adnoddau priodol i swyddogion gyflawni gweledigaeth y Cynllun Strategol hwn ac i wrthbwyso hynny â'r angen i weithredu'n gost effeithiol.

5.4 Mae ein staff yn allweddol i weithredu swyddogaethau a gwireddu'r weledigaeth. Rhaid sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol, a'u bod wedi'u harfogi a'u hysbrydoli i ragori yn eu gwaith. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau fod yr holl staff yn deall y gofynion sydd arnynt ac yn ymwybodol o holl waith y Comisiynydd. Bydd hynny'n cynnwys rhaglen

hyfforddi flynyddol; trefnu cynlluniau rheoli perfformiad a gweithredu pholisïau a gweithdrefnau'n briodol.

5.5 Byddwn yn gweithredu trefniadau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion a dyletswyddau cyfreithiol fel rhyddid gwybodaeth a gwarchod data. Mae gan y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol a byddwn yn parhau i weithredu'r cynllun yn ein trefniadau mewnol. Yn ogystal â Phanel Cynghori a benodir gan Weinidogion Cymru, mae gennym Bwyllgor Archwilio a Risg ac rydym wedi penodi Archwilwyr Mewnol i roi trosolwg annibynnol o weithrediad y sefydliad. Fel penodiad cyhoeddus mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i'r safon uchaf o weinyddiaeth fewnol. Mae swyddog wedi ei benodi yn Rheolwr Risg ac mae'r Comisiynydd yn hyrwyddo diwylliant o gyfrifoldeb ac atebolrwydd priodol drwy'r sefydliad.

Blaenoriaethau

1. Cyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod gwahanol randdeiliaid yn ymwybodol o waith y Comisiynydd.
2. Rheoli cyllid ac adnoddau'n effeithiol gan sicrhau gwerth am arian.
3. Datblygu a chynnal gweithlu effeithlon mewn cyfnod o newid.
4. Gweithredu swyddogaethau llywodraethu priodol.

6. Adrodd ac atebolrwydd

6.1 Caiff y Cynllun Strategol hwn ei roi ar waith drwy gynlluniau gweithredol blynyddol a fydd yn cynnwys prosiectau penodol, amserlen a thargedau er mwyn mesur cyflawniad. Bydd y cynlluniau hyn yn ystyried anghenion adnoddau a chyllid ar gyfer pob prosiect a byddwn yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag ymrwymiadau cydraddoldeb a gwarchod data.

6.2 Byddwn yn adrodd ar ein gweithgareddau drwy adroddiad blynyddol statudol ac mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys y materion canlynol:

- crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd
- adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg
- crynodeb o raglen waith y Comisiynydd
- cynigion y Comisiynydd ar gyfer rhaglen waith y flwyddyn ariannol ddilynol
- crynodeb o'r cwynion a wnaed yn unol â'r weithdrefn a sefydlwyd.

6.3 Yn ogystal, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cynhyrchu o dan drefniadau y cytunwyd arnynt â'r Trysorlys; mae'r rhain yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

6.4 Bydd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi a'u gosod ar wefan y Comisiynydd. Caiff copi o'r adroddiad blynyddol ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.